



# Polisi Toiledau

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu  
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau*  
*See Policy Review Timetable*

## Polisi Toiledau Ysgol Dyffryn Conwy

Mae'r ddogfen hon ar gael i bawb sy'n rhan o gymuned yr ysgol. Cafodd ei chymeradwyo gan lywodraethwyr yr ysgol a'r dysgwyr ac mae ar gael ar Wefan yr ysgol.

### Cyd-destun cyfreithiol

Ysgrifennwyd y polisi hwn gan roi ystyriaeth i'r deddfwriaethau a'r arweiniad canlynol:

- Deddf Addysg 1996
- Rheolau Adeiladau Ysgol 1999 a'r cylchlythyr cysylltiol WAG 15/99
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Rheolau Man Gwaith 1992
- Deddf Addysg 2002
- Rheolau Cyngor yr Ysgol 2005
- Deddf Cydraddoldeb 2001
- Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn 2004

### Nôd

• Gwneud toiledau dysgwyr mor hygyrch â phosibl yn ystod y dydd er mwyn hyrwyddo iechyd, lles a chyfleoedd dysgu'r holl ddysgwyr.

• Darparu adnoddau toiled safonol drwy'r ysgol.

Ar sail resymegol : Pam rydym yn ysgrifennu'r polisi hwn?

• Mae'r ysgol yn cydnabod fod cyfleusterau toiled sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, lle mae dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus a diogel ac sydd ar gael yn ystod oriau ysgol, yn hanfodol ar gyfer iechyd, lles a dysgu.

• Mae'r dysgwyr yn werthfawr i ni ac rydym yn eu parchu ac am iddynt elwa o ddarpariaeth ac ymarfer da.

### Amcanion : Beth rydym am ei gyflawni?

• Sicrhau fod y polisi hwn yn cael ei dderbyn a'i gynnal gan y gymuned ysgol gyfan – yn staff, dysgwyr, llywodraethwyr, rhieni/gwarchodwyr, rheolwyr safle, staff glanhau a chynorthwyl.

• Cadw toiledau'n agored ac ar gael i ddysgwyr trwy gydol oriau ysgol. Er y gall dysgwyr ddefnyddio cyfleusterau toiled amser egwyl a chinio pe byddant angen, ceisiwn sicrhau fod dysgwyr yn gallu eu defnyddio bob amser. Sylweddolwn fod anghenion toiled yn amrywio o unigolyn i unigolyn ac nad ydynt yn cyd-ymffurfio ag amserlen gaeth. Ar lefel uwchradd, er mwyn lleihau angen dysgwyr i adael gwersi, byddwn yn darparu egwyl toiled yn rheolaidd ac yn aml. Sylweddolwn fod rhai dysgwyr yn teimlo'n fwy cyfforddus i fynd i'r toiled pan na fydd neb arall o gwmpas ac fe roddwn ganiatâd iddynt fynd a dod o'r dosbarth i ddefnyddio'r toiled heb unrhyw sylw anffafriol.

• Sicrhau bod y cyfleusterau toiled ac ystafell ymolchi'n addas ar gyfer yr ystod debygol o rai fydd yn eu defnyddio, gan gynnwys dysgwyr ag anableddau/ALN, gyda golau, cyfarpar a chelfi digonol.

• Sicrhau bod cyfleusterau toiled ac ystafell ymolchi'n darparu ar gyfer anghenion pob dysgwr o gymunedau ethnig a chrefyddol a sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu cwrdd mewn modd sensitif, deallus ac addas.

• Sicrhau bod cyfleusterau toiled yn darparu preifatrwydd gweledol a chlywadwy i'r defnyddwyr, gan sicrhau bod cloeon ciwbicil sbâr ar gael.

• Sicrhau bod cyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer, sebon hylifol, cyfleusterau sychu dwylo a phapur toiled ym mhob un o doiledau'r ysgol a'u bod wedi eu gosod ar lefel hwylus.

• Sicrhau bod yr unedau gwaredu deunydd sanitari ymhob ciwbicil merched yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd a darparu cyflenwad o ddeunydd sanitari yn nhoiledau'r merched.

• Gweithredu a chynnal trefn effeithiol o lanhau, arolygu ac archwilio toiledau er mwyn sicrhau safon addas o ddarpariaeth a glanweithdra drwy gydol oriau ysgol.

• Gosod cyflenwad o ddŵr yfed mewn manau diogel ac addas, heb fod yng nghyffiniau toiledau.

• Goruchwilio toiledau ar amser egwyl a chinio, pe bai dysgwyr yn gweld yr angen am hynny. Pe bai dysgwyr am gymryd y ddyletswydd yma, byddwn yn eu hyfforddi ac yn eu goruchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud eu dyletswydd yn gywir ac nad ydynt yn rhwystro eu cyd-ddysgwyr rhag defnyddio'r

toiledau pan fyddant angen gwneud hynny.

- Gwneud ymdrech i geisio barn y gymuned ysgol gyfan ar unrhyw bryderon am ddarpariaeth toiledau a materion yn ymwneud â mynediad iddynt (gan sicrhau proses gefnogol i ddysgwyr dynnu sylw at ddiffygion neu broblemau) ac ymateb i'r rhain mewn modd difrifol a delio gydag unrhyw broblemau y tynnwyd sylw atynt heb oedi.
- Gwneud ymdrech i ymgynghori gyda dysgwyr sy'n rheoli'r toiledau a'u cynnwys mewn trafodaethau (trwy gyfrwng cyngor yr ysgol).
- Annog y dysgwyr i barchu'r toiledau a pharchu ei gilydd (trwy gyfrwng cyngor yr ysgol, gwersi ABCCh, mewn trafodaethau gydag athro dosbarth, yn y rhaglen SEAL) a chael y dysgwyr i sefydlu Côt Ymddygiad Dysgwyr ar gyfer toiledau ac ystafelloedd ymolchi, drwy gyfrwng Cyngor yr Ysgol.
- Cynnwys materion yn ymwneud â rheoli toiledau yn holl gyfarfodydd perthnasol cyngor yr ysgol, staff, CRhA a chyfarfodydd llywodraethwyr.
- Darparu manau cymdeithasu dan do er mwyn annog dysgwyr i beidio defnyddio toiledau ar gyfer hynny.
- Gweithredu a chynnal adolygiadau blynyddol o'r polisi i ofalu ei fod yn cael ei weithredu ac yn parhau i fod yn berthnasol.

### Nodiadau

- Cynhyrchwyd y ddogfen bolisi hon mewn ymgynghoriad â dysgwyr, rhieni / gwarchodwyr, staff ysgol, llywodraethwyr a nyrs yr ysgol.
- Mae'r ysgol yn gwneud ymdrech i gefnogi darparu mynediad rhwydd i gyfleusterau toiled sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, yn lân yn breifat ac yn ddiogel drwy gydol oriau ysgol.